



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Sicrhau Dyfodol Cymru

## Symud o'r Undeb Ewropeaidd i berthynas newydd ag Ewrop

Crynodeb i bobl ifanc

# Cyflwyniad

Ym mis Mehefin 2016, roedd yna bleidlais:

Ydyn ni eisiau aros yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd (UE) neu ei adael?

Fe bleidleisiodd y mwyafrif o bobl yn y DU i 'adael'.

Grŵp o 28 o wledydd Ewropeaidd sy'n cydweithio ac yn rhannu'r un rheolau ydy'r UE.

Brexit ydy'r enw weithiau ar Brydain yn gadael yr UE.

Gan ein bod ni'n rhan o'r DU, bu pobl yng Nghymru'n pleidleisio hefyd. Fe bleidleisiodd y mwyafrif yr un ffordd – i adael yr UE. Mae Llywodraeth Cymru'n deall hyn ac yn parchu'r penderfyniad.

## Nid ydy hi'n mynd i fod yn hawdd gadael.

Mae yna lawer o bethau y mae angen eu gweithio allan a siarad amdanyn nhw.

Dyna pam fod Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru'n cydweithio i ddod o hyd i'r atebion gorau ar gyfer Cymru.



**Mae angen i ni wneud yn siŵr bod y ffordd rydyn ni'n gadael yr UE yn diogelu Cymru.**





# Cydweithio

Ni allwn ni wneud hyn ar ein pennau ein hunain.

Mae’n rhaid i ni weithio gyda Llywodraeth y DU yn Llundain ac fe fydd angen trafod telerau â’r UE.

Rydyn ni eisiau’r canlyniad gorau posibl i bobl Cymru.

Mae angen i ni ofalu am ein busnesau a’n cymunedau. Rydyn ni hefyd eisiau diogelu’r cyllid rydyn ni’n ei dderbyn a sut rydyn ni’n masnachu ag Ewrop a’r byd.

## Mae’n bosibl y bydd yna gyfleoedd i dyfu a datblygu, ond mae yna risgiau hefyd.

I’n helpu ni i ddeall y materion dan sylw, rydyn ni’n gweithio gyda:


- ein Grŵp Cynghori ar Ewrop
- arbenigwyr ym meysydd amaethyddiaeth a’r amgylchedd
- arbenigwyr ym myd addysg ac mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill
- busnesau
- undebau llafur
- sefydliadau ac elusennau.

Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda’r llywodraethau yng Ngogledd Iwerddon a’r Alban.

Mae’r llyfryn yma’n edrych ar fater sicrhau dyfodol Cymru. Mae’n manylu ar y materion pwysig y mae angen i ni feddwl amdanyn nhw wrth i’r DU baratoi i adael yr UE.

## Rydyn ni wedi nodi 6 mater allweddol:

1. **Y Farchnad Sengl**
2. **Symud i Gymru**
3. **Cyllid**
4. **Pwerau Llywodraeth Cymru**
5. **Mesurau diogelu ar gyfer pobl a’r amgylchedd**
6. **Osgoi amhariad.**



# 1. Y Farchnad Sengl

Mae cael Marchnad Sengl yn ei gwneud hi'n haws o lawer prynu a gwerthu (masnachu) rhwng gwledydd yr UE.

Maen nhw'n gallu masnachu ym meysydd:

- **nwyddau** – fel ceir, dillad neu fwyd Cymru
- **gwasanaethau** – fel bancio, y cyfryngau, trafnidiaeth neu dechnoleg
- **cyfalaf** – fel cyllid neu fuddsoddiad busnes.

Mae'r Farchnad Sengl hefyd yn caniatáu i bobl symud yn rhydd rhwng gwledydd yr UE ar gyfer swyddi neu i astudio.


## Yng Nghymru, mae'r Farchnad Sengl yn rhan o fywyd bob dydd.

Rydyn ni'n masnachu ym mhob math o bethau â gwledydd yr UE.

Rydyn ni o'r farn y byddai gadael y Farchnad Sengl yn beth drwg i Gymru a'n safon byw. Fe allai olygu y bydd nwyddau a gwasanaethau'n costio mwy. Efallai y bydd busnesau Cymru hefyd yn ei chael hi'n fwy anodd gwerthu eu cynnyrch i wledydd yr UE.

## Rydyn ni eisiau cymryd rhan yn y Farchnad Sengl a pharhau i dyfu.

Rydyn ni eisiau i Lywodraeth y DU wneud rhywbeth ynglŷn â hyn. Mae angen iddyn nhw hybu ein gallu i barhau i gymryd rhan yn y Farchnad Sengl.



# 2. Symud i Gymru

Mae pobl yn symud rhwng gwledydd yr UE i weithio ac i astudio.

Mae gennym ni lawer o bobl o wledydd yr UE sy'n byw ac yn gweithio'n gyfreithiol yng Nghymru – maen nhw'n gwneud cyfraniad positif at ein heconomi, ein cymunedau a'n gwasanaethau cyhoeddus.

Mae yna hefyd lawer o Gymry sy'n byw ac yn gweithio'n gyfreithiol yng ngwledydd yr UE.

**Mae'n bwysig bod yna barch i bawb a'i bod hi'n eglur bod ganddyn nhw hawl i aros. Mae angen i Lywodraeth y DU a'r UE egluro hyn.**



Rydyn ni'n deall y bydd yn rhaid i rai newidiadau ddigwydd wrth i ni adael yr UE.

Fe allai hyn olygu bod angen ichi fod â swydd i ddod i fyw yng Nghymru.

Mae angen sicrhau pobl y byddan nhw'n gallu aros yn y gymuned a'r wlad y maen nhw'n byw ynddi ar hyn o bryd.



# 3. Cyllid

Mae gwledydd yn talu i fod yn aelod o'r UE ac maen nhw hefyd yn derbyn cyllid oddi wrth yr UE.

Rydyn ni'n cael rhyw £680 miliwn o gyllid yr UE bob blwyddyn.

Mae swm y cyllid y mae Cymru'n ei gael oddi wrth yr UE yn fwy na'r swm rydyn ni'n ei dalu i mewn.

Mae'r cyllid yma'n gwneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl. Mae'n cael ei ddefnyddio i:

- gefnogi busnesau
- creu mwy o swyddi
- hyfforddi pobl â sgiliau newydd
- helpu'r byd ffermio, a chefn gwlad
- gwella cymunedau.

## Gwnaeth rhai gwleidyddion addo na fyddai Cymru'n waeth ei byd pe bai'n gadael yr UE.

Fe gytunodd Llywodraeth y DU y byddai'n parhau i ariannu prosiectau'r UE tan 2020. Mae hyn yn helpu, ond mae angen iddyn nhw esbonio beth fydd yn digwydd wedyn.

Mae'n rhaid i ni gael gwybod a fydd hyn yn rhan o'r gyllideb y mae Llywodraeth y DU yn ei rhoi i Gymru i redeg y wlad.

Rydyn ni eisiau dal i fod yn rhan o rai o raglenni'r UE. Rhaglenni fel ERASMUS+ sy'n helpu myfyrwyr i astudio yng ngwledydd eraill yr UE. Neu Horizon 2020, sy'n ariannu gwaith ymchwilio ac arloesi newydd.

Mae Banc Buddsoddi Ewrop (EIB) yn rhoi benthyciadau i Gymru sy'n ein helpu ni i dyfu a buddsoddi. Rydyn ni eisiau i'r DU aros yn rhan o hyn hefyd.



# 4. Pwerau Llywodraeth Cymru

Mae gan Gymru ei llywodraeth ei hun. Rydyn ni'n gweithio i wella bywydau pobl yng Nghymru.

Rydyn ni'n defnyddio cyfreithiau i gefnogi:

- busnesau
- yr amgylchedd
- gwasanaethau cyhoeddus
- amaethyddiaeth
- pysgodfeydd
- a mwy.

Mae gadael yr UE yn newid hyn a'n ffordd o weithio. Mae hefyd yn newid pethau i Lywodraeth y DU.

Mae angen i ffordd Llywodraeth y DU o weithio gyda Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon newid.

Fe fydd angen i ni gydweithio mewn ffordd wahanol pan fyddwn ni'n gadael yr UE.



**Mae angen i ni wneud yn siŵr bod pwerau Cymru'n cael eu diogelu.**





# 5. Mesurau diogelu ar gyfer pobl a'r amgylchedd

Mae'r DU wedi bod yn rhan o'r UE am fwy na 40 mlynedd.

Mae yna lawer o gyfreithiau a pholisïau sydd wedi bod yn dda i Gymru.

Mae bod yn rhan o'r UE wedi:

- **Diogelu'r amgylchedd** – mae gennym ni aer, dŵr a thraethau glanach oherwydd rhai o'r cyfreithiau yma
- **Diogelu pobl** – mae gennym ni fwy o hawliau, gweithleoedd mwy diogel a chyfreithiau cyflogaeth cryfach
- **Gwneud nwyddau a chynhyrchion yn fwy diogel** – mae'r pethau sy'n cael eu gwerthu yn ein siopau'n fwy diogel ac mae cyfreithiau'n rhoi'r hawl i ni fynd â phethau'n ôl.

**Mae angen i ni wneud yn siŵr na fyddwn ni'n colli'r rhain pan fyddwn ni'n gadael yr UE.**





# 6. Osgoi amhariad

Nid yw’n beth syml gadael yr UE.

Mae yna ran o gyfraith yr UE o’r enw Erthygl 50.

Mae’n rhoi’r hawl i unrhyw wlad yr UE adael.


Mae hefyd yn manylu ar sut i adael.



Nawr ein bod ni wedi pleidleisio i adael, mae angen i Lywodraeth y DU ddefnyddio Erthygl 50. Yna fe fydd gennym ni 2 flynedd i ddod i delerau â’r UE.

Mae yna rai materion anodd i’w datrys ac mae angen i ni osgoi problemau mawr ar ôl y 2 flynedd.

**Rydyn ni o’r farn bod angen i Lywodraeth y DU gytuno ar amser pontio ar ôl i ni adael yr UE.**



# Y camau nesaf

Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr eich bod chi'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am ein cynlluniau i adael yr UE.



Rydyn ni'n rhan o Ewrop. Ni fydd gadael yr UE yn newid hynny.

Rydyn ni eisiau parhau i gydweithio, dysgu oddi wrth ein gilydd, teithio a masnachu â'n gilydd.

Mae yna lawer i roi trefn arno ond rydyn ni'n benderfynol o gael y telerau gorau i bobl yng Nghymru.

## Diolch yn fawr am ddarllen hwn.

Os ydych chi eisiau cael rhagor o wybodaeth:
**llyw.cymru/brexit**

